

Minutes of the **Special Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on Monday 8th February 2016 at 6.30 pm

PRESENT :- Her Worship the Mayor Councillor Mrs E Butler

The Deputy Mayor, Councillor D Williams

Councillors Mrs L Day (Chairman)

John Wynn Jones

N Pickavance

Susan Ashworth

D Llewelyn

G O Roberts

Mrs J Forsyth

Mrs J Marshall

Derek Hainge

R K Marshall

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

185/15 APOLOGIES

Apologies for absence were received from Councillors D Madge (hospital) Colin King (emergency) J M Martin (holiday) H Williams (ill).

186/15 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

The Mayor, Councillor Mrs E Butler on item 4 – Town Clerk’s Report – General Purposes, Bangor CAB.

187/15 RISK ASSESSMENT REVIEW and REVIEW OF EFFECTIVENESS OF INTERNAL CONTROL SYSTEM

The Town Clerk presented the above document, which had been forwarded to Members, who considered its contents.

After questions, discussion and minor amendments it was **RESOLVED** to approve the Risk Assessment Review and the Review of Effectiveness of Internal Control System as presented in the document.

188/15 TOWN CLERK’S REPORT - BUDGET FOR 2016/2017

The Town Clerk presented the budget report and responded to questions by Members on the various headings as follows:-

1) Review of Council Prices and Charges

RESOLVED:-

- (i) to increase the prices in the Penrhyn Hall as indicated in the Town Clerk’s Report;
- (ii) to increase annual rental charges for the Pier Kiosks as set out in the Report;
- (iii) that the Pier entrance prices should remain the same;
- (iv) to increase the car park price as indicated in the report; and
- (v) that a review be undertaken on possible Annual Car Park Passes.

2) Works at the Pier

Members noted the current position with regards to a scaffolding walkway, impending survey and possible grant opportunities thereafter. Day to day management and maintenance issues were discussed

In accordance with the Internal Auditor’s advice, it was **RESOLVED** to reaffirm that the greater part of the Council’s Capital Reserve would be used for Pier Renovation works.

3) Other Property Matters

Members noted the Town Clerk’s concern at the coastal erosion that was threatening the boundary wall at the Pier Master’s house and that a survey result was awaited.

4) Penrhyn Hall

Members noted the Town Clerk’s Report listing additional works being undertaken in Penrhyn Hall, including kitchen refurbishments, and installation of audio-visual equipment in the Hall. It was noted that no works had been carried out on the Mayor’s Parlour which required some updating.

5) Woodland Maintenance.

Members noted the concern regarding the condition of the two areas of woodland in the Council’s ownership – Menai Woods and Penrhyn Arms Woods – and that work needed to be carried out over the course of the next 2/3 years to make the areas safe.

It was **RESOLVED** that increased provision was made in the 2016/2017 budget and in the following two years to implement this woodland maintenance work.

6) Open Spaces and Play Areas.

The current situation was noted and the Town Clerk was asked to present a future report to the Planning and Amenities Committee to consider the future usage of Princess Road open space.

7) Staffing

Members noted the situation regarding the non-employment of two seasonal manual staff in the 2015/16 financial year.

RESOLVED that the funding be put in place to employ additional staff in 2016/17, however the Staffing Panel should be convened to look at this issue as well as a number of other outstanding matters.

Membership of the Staffing Panel was confirmed as Councillor John Wynn Jones (Chair), Jean Forsyth, Derek Hainge, Mayor and Deputy Mayor, Chairman and Vice-Chairman of Finance and General Purposes Committee

RESOLVED to accept the remainder of the Town Clerk's report and the recommendations contained therein.

189/15 ESTIMATES OF INCOME AND EXPENDITURE FOR 2016/2017

The Town Clerk presented the detailed schedule of Estimates for 2016/2017

The Budget was reviewed page by page and the Town Clerk explained the figures set out under the various headings, highlighting the major items of expenditure necessary in the coming financial year.

RESOLVED to accept all the recommendations contained in the schedule of Budget Estimates.

190/15 PRECEPT 2016/2017

It was **RESOLVED** that the recommendations contained in the Town Clerk's Budget Estimates regarding the precept be approved subject to:-

- 1) any Capital Expenditure be funded from the Capital Reserve Account;
- 2) any under-spend from 2015/16 be allocated to Capital Reserves for the Pier;
- 3) to utilise part of the underspend to ensure a 3% rise in Council Tax (Band D) (Councillor D Hainge voted against this proposal); and
- 4) the Precept for 2016/2017 be £331,532.00.

191/15 INVOICES FOR PAYMENT

It was **RESOLVED** that the invoices as detailed on the schedule totalling £1,174.18 be approved and passed for payments.

The Meeting finished at 8.30pm

Cofnodion **Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, Dydd Llun, 8^{fed} o Chwefror 2016 am 6.30 y.h.

PRESENNOL :- Ei Theilyngdod y Maer y Cynghorydd Mrs E Butler

Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd D Williams

Cynghorwyr

Mrs L Day (Cadeirydd)

Susan Ashworth

Mrs J Forsyth

Derek Hainge

John Wynn Jones

D Llewelyn

Mrs J Marshall

R K Marshall

N Pickavance

G O Roberts

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

185/15 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D Madge (ysbyty) Colin King (argyfwng) J M Martin (gwyliau) H Williams (salwch).

186/15 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLTTIAD PERSONOL

Y Cynghorydd Mrs E Butler ar eitem 4 Adroddiad Clerc y Dref - Amcanion Cyffredinol CAB Bangor.

187/15 ADOLYGIAD O ASESIAD RISG ac ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD SYSTEM RHEOLIADAU MEWNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref y ddogfen uchod a oedd wedi cael ei gyrru ymlaen i'r Aelodau, ac ystyriwyd ei chynnwys.

Ar ôl cwestiynau a thrafodaeth ar y mater, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Asesiad Risg a'r Adolygiad o Effeithiolrwydd System Rheoliadau Mewnol fel ag y'u cyflwynwyd yn y ddogfen.

188/15 ADRODDIAD CLERC Y DREF – Y GYLLIDEB AR GYFER 2016/2017

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ar y gyllideb ac ymatebodd i gwestiynau gan yr Aelodau ar y gwahanol benawdau fel a ganlyn:

1) Adolygiad o Brisiau'r Cyngor

PENDERFYNWYD :-

- (i) codi prisiau llogi Neuadd y Penrhyn fel ag y dangosir yn Adroddiad Clerc y Dref.
- (ii) codi prisiau rhent blynnyddol Ciosgau'r Pier fel ag y'u gosodwyd allan yn yr Adroddiad.
- (iii) y dylai prisiau mynediad i'r Pier aros yr un fath;
- (iv) codi pris y maes parcio fel ag y dangosir yn yr adroddiad; a
- (v) chynnal adolygiad ar Drwyddedau maes Parcio Blynnyddol possibl.

2) Gwaith Cyfalaf ar y Pier

Nododd yr Aelodau'r sefyllfa bresennol o ran llwybr cerdded o dan sgaffaldiau, yr arolwg sydd ar fin digwydd a'r cyfleoedd grant posibl yn dilyn hynny. Trafodwyd materion rheoli a chynnal a chadw o ddydd i ddydd.

Yn unol â chyngor yr Archwilydd Mewnol, **PENDERFYNWYD** ailddatgan y byddai'r rhan fwyaf o Gronfa Cyfalaf y Cyngor yn cael ei defnyddio ar gyfer y gwaith o adnewyddu'r Pier.

3) Materion Eiddo Eraill

Noddodd yr Aelodau bryder Clerc y Dref am yr erydiad arfordirol a oedd yn bygwth y wal derfyn yn nhŷ'r Pier Feistr a dywedodd ei fod yn disgwyl canlyniad arolwg.

4) Neuadd Penrhyn

Nododd yr Aelodau gynnwys adroddiad Clerc y Dref yn rhestru gwaith ychwanegol yn Neuadd y Penrhyn yn cynnwys adnewyddu'r gegin, a gosod offer clywedol yn y Neuadd. Nodwyd na wnaed dim gwaith ar Barlwr y Maer a oedd angen ei adnewyddu rhyw gymaint.

5) Cynnal Coedwigoedd

Nodwyd y pryder yn adroddiad y Clerc am gyflwr y ddwy goedwig ym mherchnogaeth y Cyngor – Coed Menai a Choed Penrhyn Arms – a'r ffaith bod angen cario gwneud gwaith dros y 2/3 blynedd nesaf i wneud yr ardaloedd yn ddiogel.

PENDERFYNWYD gwneud darpariaeth ychwanegol yng nghyllideb 2015/2016 a'r ddwy flynedd ganlynol i gyflawni'r gwaith cynnal coedwigoedd yma.

6) Ardaloedd agored a Mannau Chwarae Plant.

Nodwyd y sefyllfa bresennol a gofynnwyd i Glerc y Dref gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau i ystyried defnydd man agored Ffordd y Dywysoges yn y dyfodol.

7) Staffio

Nodwyd y sefyllfa ynglŷn â pheidio â chyflogi dau weithiwr llaw tymhorol ym mlwyddyn ariannol 2015/15.

PENDERFYNWYD neilltuo cyllid i gyflogi staff ychwanegol yn 2016/17, ond bod angen i'r Panel Staffio gyfarfod i drafod y mater hwn yn ogystal â nifer o faterion eraill a oedd angen sylw.

Cadarnhawyd mai aelodau'r Panel Staffio yw'r Cyngorydd John Wynn Jones (Cadeirydd), Jean Forsyth, Derek Hainge, y Maer a'r Dirprwy Faer, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol.

PENDERFYNWYD derbyn y gweddill o adroddiad Clerc y Dref a'r argymhellion a gynhwysir ynddo.

189/15 AMCANGYFRIFON INCWM A GWARIANT 2016/2017

Cyflwynodd Clerc y Dref restr fanwl o'r Amcangyfrifon am 2016/2017.

Adolygodd yr Aelodau'r gyllideb fesul tudalen ac eglurodd Clerc y Dref y ffifyrau a osodwyd allan o dan y gwahanol benawdau gan dynnu sylw at yr eitemau gwariant mwyaf a oedd eu hangen yn y flwyddyn ariannol i ddod.

PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion i gyd a gynhwyswyd yn y rhestr o Amcangyfrifon.

190/15 PRAESEPT 2016/2017

PENDERFYNWYD awdurdodi'r argymhellion a gynhwysir yn Amcangyfrifon Cyllideb Clerc y Dref sy'n cyfeirio at y praesept, a bod :-

- 1) unrhyw wariant cyfalaf i'w ariannu o'r Cyfrif Cyfalaf wrth gefn;
- 2) unrhyw danwariant o 2015/16 yn cael ei neilltuo i'r Gronfa wrth gefn ar gyfer y Pier;
- 3) defnyddio rhan o'r tanwariant i sicrhau codiad o 3% yn Nhreth y Cyngor (Band D) (pleidleisiodd y Cyngorydd D Hainge yn erbyn y cynnig hwn); a
- 4) bod praesept 2016/2017 yn £331,532.00.

191/15 ANFONEBAU I'W TALU

PENDERFYNWYD derbyn a chaniatáu talu'r anfonebau fel eu ceir yn y Rhestyr, sy'n dod i gyfanswm o £1,174.18.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.30 pm